

Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)



PAPUR CEFNDIR 26

Astudiaeth Dichonoldeb Tirlenwi

Mawrth 2011

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar:
www.conwy.gov.uk/cdli. Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac un swyddefeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Stryd y Castell, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575447. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweilthio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fydddech gystal â chysylltu â'r Tîm CDLI ar (01492) 575180/575181/575124.

Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575447.

CYNNWYS

Tudalen

1. Cefndir	4
2. Amcanion yr Astudiaeth	4
3. Casgliadau	5
4. Casgliad	7
5. Atodiad A	8

1. Cefndir

- 1.1 Ar hyn o bryd mae Cyngor Conwy'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu cysylltiedig i Gymru. Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI sy'n datblygu'n darparu'r amcanion cynaliadwyedd sy'n sail ar gyfer profi'r holl bolisiau a strategaethau gwirioneddol. Mae llinell sylfaen yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn nodi prinder cyfleusterau rheoli gwastraff yng Nghonwy yn ogystal ag oes gyfyngedig safleoedd tirlenwi presennol, yn arbennig y rhai hynny lle mae hawl i reoli gwastraff nad yw'n beryglus. Er y nodir bod angen gwneud darpariaeth ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff sy'n osgoi anfon gwastraff a waredir i'w dirilenwi, bydd angen rhyw gymaint o gapasiti i reoli gwastraff gweddilliol y broses ailgylchu a chasglu.
- 1.2 Er gwaethaf trefniadau Partneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru, mae angen i'r Awdurdod ystyried posibilrwydd dyrannu safle neu safleoedd yn y CDLI ar gyfer tirlenwi gwastraff ar ôl 2015. I gyd-fynd ag Adolygiad Cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a'r pwyslais ar gamau cyntaf proses paratoi'r cynllun, comisiynodd yr Awdurdod 'RPS Consultants' i gynnal astudiaeth tirlenwi er mwyn nodi ardaloedd chwilio posibl ar gyfer tirlenwi/codi lefel y tir, gan ddarparu ar gyfer y prinder lle ar ôl 2015.
- 1.3 Mae'r papur cefndir hwn yn grynodedb o'r Astudiaeth Ddichonoldeb Tirlenwi manylach a luniwyd RPS ar ran y Cyngor. Gellir cael copïau o'r astudiaeth fanwl drwy gysylltu â'r Adran Polisi Cynllunio.

2. Amcanion yr Astudiaeth

- 2.1 Amcanion yr astudiaeth oedd:
- Darparu tystiolaeth gadarn i helpu i gefnogi'r gwaith o ganfod safleoedd ar gyfer tirlenwi/codi lefel y tir yn y dyfodol;
 - Darparu rhestr fer o safleoedd yn seiliedig ar ddata ardaloedd chwilio a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad o Gynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru, wedi ei ategu gan wybodaeth ac arbenigedd yn benodol i'r Sir; a
 - Darparu argymhelliad penodol ar safle(oedd) a ffefrir gyda chapasiti digonol i gyflawni'r rhwymedigaeth i ddyrannu safleoedd yn CDLI Conwy a chyflawni gofynion Cyfarwydddeb Tirlenwi'r UE.

2.2 Cynhaliwyd yr astudiaeth yn bennaf trwy ddulliau pen bwrdd. Mabwysiadwyd dull graddol yn cynnwys y camau a ganlyn:

- Datblygu meini prawf ar gyfer y dull adolygu nodi safleoedd a fabwysiadwyd ar gyfer y prosiect ardaloedd chwilio ar gyfer Adolygiad Cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a darparu proses archwilio glir ar gyfer asesu safleoedd;
- Coladu a chasglu data a dadansoddiad bwlch;
- Nodi Ardaloedd Chwilio Arfaethedig gan ddefnyddio GIS a'r meini prawf y cytunwyd arnynt;
- Cynnal ymgynghoriad interim gyda'r rhai y mae'n rhaid i ni ymgynghori nhw i gael barn gychwynnol ar yr ardaloedd chwilio arfaethedig a'r fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth hon; a
- Gwneud ymweliadau safle i'r ardaloedd chwilio arfaethedig.

3. Casgliadau

3.1 Yn dilyn yr ymweliadau safle daethpwyd i'r casgliad, er bod yr ardaloedd chwilio arfaethedig (ardaloedd I a II ar y map yn yr atodiad) yn eithaf anghyfyngedig ac yn agos at ffynhonnell y gwastraff ar sail asesiad safle strategol, mae angen arfarnu ymhellach y mynediad uniongyrchol i'r safleoedd allai fod yn annichonadwy yn ariannol ac amgylcheddol. Byddai angen ymgynghori ymhellach, yn arbennig gyda pherchnogion tir a'r diwydiant gwastraff, er mwyn cadarnhau a fyddai'r tir ar gael ac yn bosibl ei ddefnyddio ar gyfer tirlenwi yn y tymor hir. O ystyried y lefel hon o ansicrwydd, ni argymhellir bod yr ardaloedd chwilio arfaethedig yn cael eu dyrannu ar gyfer tirlenwi ar hyn o bryd. Mae mynediad ffyrdd yn anodd yn y ddwy ardal chwilio oherwydd bod angen i gerbydau nwyddau trwm fynd trwy dref Conwy a'i muriau, yn ogystal ag effaith y traffig ychwanegol fyddai'n defnyddio cyffordd pont Tal-y-cafn ar yr A470 allai beryglu diogelwch traffig priffyrdd yn ardal chwilio 1 a'r dirwedd serth yn effeithio'n bennaf ar ardal 2 ond nid yr ardal honno'n unig. Mae problemau fel hyn yn golygu efallai na fydd creu safle tirlenwi yn y mannau hyn yn bosibl nac yn ddichonadwy'n ariannol. Felly, ni fyddai'n ddoeth cynnwys yr ardaloedd hyn yn y CDLI.

3.2 Ers cwblhau'r astudiaeth hon yn Ebrill 2009, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cwblhau data LANDMAP ar gyfer y Fwrdeistref i gyd. Wrth ystyried y ddwy ardal chwilio, mae ardal 1 ac ardal 2 mewn ardal o dirlun diwylliannol rhagorol ac mae

ardal 2 hefyd yn rhannol mewn tirlun daearyddol a gafodd ei ddynodi'n ansawdd rhagorol. Gallwn felly gasglu o'r asesiad lefel strategol fod cryn gyfyngiadau ar y ddwy ardal chwilio ac nid yw'n ymddangos fod y naill na'r llall ohonynt yn addas i'w dynodi fel hyn.

- 3.3. Oherwydd maint yr ansicrwydd hwn, ni argymhellir dynodi'r ardaloedd chwilio ar gyfer tirlenwi ar hyn o bryd.
- 3.4 O ystyried yr oes a ragwelir i safle tirlenwi gwastraff nad yw'n beryglus yn Llanddulas, a ddaw i ben tua 2015, argymhellir bod tystiolaeth bellach, gan gynnwys ymgynghori fel yr amlinellir uchod, yn cael ei chasglu'n barod ar gyfer cyfnod yr adolygiad cyntaf o'r CDLI. Argymhellir bod yr asesiad hwn yn cynnwys ardal chwilio bellach a ddeilliodd o'r ymweliadau safle.
- 3.5 Mae Chwarel Penmaenmawr (ardal chwilio III ar y map yn Atodiad A) yn safle mwyngloddio gweithredol wedi ei leoli yng ngogledd-orllewin y Sir. O safbwynt y meini prawf sy'n seiliedig ar GIS, mae'r safle'n asesu'n ffafriol, er nodir bod y safle wedi ei leoli mewn ardal o werth tirweddol arbennig. Mae'r gwagle o ganlyniad i'r mwyngloddio, wedi'i gyfuno â daeareg waelodol addas, yn cynnig posibilrwydd ar gyfer tirlenwi er mwyn hwyluso'r broses o adfer y tir.
- 3.6 Fodd bynnag, yn ogystal ag ymgynghori â'r perchnogion tir/gweithredwr safle, a argymhellir ar gyfer yr ardaloedd chwilio arfaethedig, nodir bod angen asesiad pellach o'r ardal ychwanegol hon o safbwynt yr effaith bosibl ar y gwaith echdynnu mwynau yn y dyfodol, mynediad i ffordd a dichonoldeb gwaith tirlenwi gwastraff nad yw'n beryglus. Mae lleoliad y safle'n agored i amodau tywydd anffafriol, a allai gyfyngu ar waith y safle.
- 3.7 O ganlyniad bu swyddogion Cyngor Conwy yn ymgynghori ymhellach gyda'r perchennog tir ac asiantaethau darparu eraill ynglŷn â phosibilrwydd Chwarel Penmaenmawr tra bod yr adroddiad yn cael ei gwblhau. Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eithaf cefnogol i gynnal ymchwiliadau pellach ar gyfer yr ardal chwilio hon, mae'r farn gychwynol gan y Cwmni sy'n berchen ar y Chwarel, ac yn ei gweithredu, yn cadarnhau na fydd gweithredwr y safle'n cefnogi'r defnydd arfaethedig hwn ar y safle hwn oherwydd y byddai o bosibl yn gwrthdaro â gwaith

o safbwynt y safle mwynau strategol hirdymor a chynlluniau i chwarela yn y dyfodol a fyddai'n anghydnaws â gwaith tirlenwi yn yr un gwagle.

4. Casgliad

- 4.1 Er gellir dod i'r casgliad fod yr astudiaeth wedi canfod ardaloedd chwilio posibl ac eithrio Chwarel Penmaenmawr, yn dilyn ymchwiliadau pellach nid yw'n debygol y bydd yr ardaloedd hyn yn addas ar gyfer safle tirlenwi oherwydd cyfyngiadau sylweddol y tirlun a'r priffyrdd.

5. Atodiad A

Map yn dangos yr ardaloedd chwilio a nodir yr astudiaeth

